Gylfinir

Numenius arquata

Ar un adeg roedd y Gylfinir yn olygfa gyffredin ar hyd a lled Iwerddon a'r Deyrnas Unedig a gellid clywed ei alwad unigryw ar hyd arfordiroedd a thir fferm. Heddiw, mae'r Gylfinir yn dirywio'n ddifrifol. Credir bod hyn o ganlyniad i golli cynefinoedd a newid hinsawdd.

Mae'r Gylfinir yn bridio yng Ngogledd a Chanolbarth Ewrasia, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Mae rhai adar yn treulio'r gaeaf yng Ngorllewin a De Ewrop, Affrica, De Asia ac Indonesia.

Beth sydd yn yr enw?

Mae enw'r genws Numenius arquata yn cyfeirio at siâp pig y Gylfinir.

Mae **Numenius** yn dod o ddau air Groeg: 'neos' sy'n golygu newydd, a 'mene' am y lleuad. Mae hyn yn creu 'lleuad newydd'.

Arquata yw'r gair Lladin am fwa saethyddiaeth.

Mae'r Gylfinir wrth ei fodd â'r aberoedd o amgylch Môr Iwerddon. Yma mae'n cael fflatiau llaid a morfeydd heli, sy'n llawn bwyd. Pan mae'n amser bridio, mae'n symud i mewn i'r tir, neu dramor, i chwilio am laswelltir toreithiog, rhostir neu dir corsiog lle gall ddodwy ei wyau.

Mae'r pig hir yn berffaith ar gyfer chwilio tir gwlyb am infertebratau a chramenogion.

Mae ei blu brown brith yn rhoi cuddliw, sy'n bwysig i aderyn sy'n nythu ar y ddaear.

♂ 770 g

♀ 1,000 g

90%

Gostyngiad yn niferoedd y Gylfinir yn Ne Iwerddon dros y 40 mlynedd diwethaf. Yng Nghymru 80% yw'r rhif.

Mae prosiect ECHOES yn astudio Gylfinirod sy'n treulio'r gaeaf yng Nghymru ac Iwerddon. Trwy ddysgu am eu symudiadau a'u patrymau bwydo, rydym yn gobeithio helpu i warchod eu cynefinoedd ar gyfer y dyfodol.

ECHOES
Effect of climate change on bird habitats around the Irish Sea
Effaith Newid Hinsawdd ar Gynefinoedd Adar o gwmpas Môr Iwerddon

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020
Tionól Réigiúnach an Deiscirt Southern Regional Assembly
Ireland's European Structural and Investment Funds Programmes 2014-2020
Co-funded by the Irish Government and the European Union
Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund